
Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales




# Bwletin y Farchnad HCC

Rhagfyr 2019

**Mae ffigurau Arolwg Mehefin a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru yn awgrymu y cafodd ychydig yn fwy o ŵyn eu magu yn 2019 nag yn 2018, pan oedd y nifer yn isel. Roedd llai o wartheg a lloi nag yn y flwyddyn flaenorol, gyda nifer y gwartheg cig eidion yng Nghymru yn parhau i ostwng, fel sydd wedi digwydd oddi ar 2012. Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn ystyried canlyniadau arolwg Mehefin ar gyfer Cymru yn fanylach.**

## GWARTHEG




Mae canlyniadau arolwg Mehefin 2019 yn dangos gostyngiad o 1.3% i 1.12 miliwn yn nifer yr holl wartheg a lloi yng Nghymru. Cafodd y gostyngiad hwn ei adlewyrchu hefyd yn y fuches fagu yng Nghymru (gwartheg benyw llaeth a chig eidion dros ddwy flwydd oed sydd wedi lloia) lle cafwyd gostyngiad o 1.3% i 415,400 o'r naill flwyddyn i'r llall. O fewn y cyfanswm hwn, cafwyd gostyngiad o 1.7% i 163,800 yn y fuches fagu gig eidion, a gostyngiad o 1.0% i 251,600 yn nifer gwartheg y fuches fagu laeth. Mewn cymhariaeth â ffigurau hanesyddol, mae'r nifer yn y fuches fagu gig eidion ar hyn o bryd yn is nag ar unrhyw adeg ers dechrau defnyddio'r System Olrhain Gwartheg (CTS) i gofnodi niferoedd y gwartheg yn 2004.

Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ar ddaliadau yng Nghymru – i lawr 8.7% (neu 4,300) i 45,156 yn niferoedd y gwartheg benyw llaeth heb loi (dros ddwy flwydd oed). Ar yr un pryd, cafwyd gostyngiad o 1.0% i 42,857 yn nifer y gwartheg cig eidion o'r un fath o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'n aneglur faint o'r gwartheg benyw hyn fydd yn dod yn rhan o'r fuches fagu, ond am fod niferoedd y gwartheg gwryw (dros ddwy flwydd oed) hefyd yn is na'r llynedd (- 5.4%), mae'r ffigurau'n awgrymu y gallai'r cyflenwad fod yn gyfyngedig yn y dyfodol agos. Parhaodd niferoedd y gwartheg rhwng 13 a 24 mis oed i fod yn gymharol sefydlog mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol (- 0.1%) wrth i nifer y gwartheg benyw llaeth gynyddu 2.0%, a'r gwartheg benyw cig eidion ostwng 1.4% (1,260). Drwyddi draw, roedd nifer yr holl wartheg yn y categori oedran hwn (13 – 24 mis) yn 258,200, a chafwyd gostyngiad o 0.5% i 321,000 yn nifer y gwartheg o dan 12 mis oed.

## DEFAID





Mae'r arolwg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau cynnydd o 1.2% (55,100) yn nifer yr ŵyn a gafodd eu geni yng Nghymru. Gallai cynnydd o'r fath mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl fod yn fwy amlwg am fod ychydig yn llai o ŵyn wedi cael eu geni yn 2018 oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ystod y tymor wyna'r flwyddyn honno. Ar y llaw arall, gostyngodd nifer y mamogiaid 1.1% (neu 52,400) i 4.71 miliwn. Y rheswm am y gostyngiad yn nifer y mamogiaid oedd y gostyngiad mawr yn nifer y mamogiaid i'w lladd (- 13.5% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol) am fod ffermwyr yn ansicr, adeg yr arolwg, ynghylch faint o famogiaid i'w cadw ar gyfer magu yn y dyfodol. Roedd nifer y mamogiaid y bwriedid eu cadw ar gyfer magu yn debyg i'r nifer y llynedd – gostyngiad o ddim ond 0.2%.





Roedd y cynnydd yn nifer yr ŵyn ar ffermydd yn gwrthbwyso'r gostyngiad yn nifer y mamogiaid magu, ac felly roedd cyfanswm y defaid ac ŵyn yng Nghymru ar 01 Mehefin 2019 yn dal yn sefydlog mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, sef 9.53 miliwn (+ 2,800). Oddi ar 2013, mae cyfanswm y defaid ac ŵyn yng Nghymru wedi para'n gymharol sefydlog o'r naill flwyddyn i'r llall – gan frigo ychydig (i 10.0 miliwn) yn 2017.

## MOCH





Ar 01 Mehefin 2019, roedd cyfanswm y moch yng Nghymru yn 24,430, sef cynnydd o 5.3% (neu 1,230) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am y cynnydd cyffredinol yn y genfaint foch oedd bod nifer y moch pesgi yn 6.6% yn fwy nag yn 2018. Yn hanesyddol, mae mwy o foch pesgi nag unrhyw foch eraill yn y genfaint foch yng Nghymru ac ar 01 Mehefin 2019, roedd 86.5% o'r genfaint yn foch pesgi, sef y ganran fwyafrifol uchaf oddi ar 2005. Cafwyd gostyngiad o 2.4% i 3,300 yng nghyfanswm y moch magu ar ddaliadau yng Nghymru mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.





## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yn y marchnadoedd yng Nghymru a Lloegr yn 184.0c/kg ar gyfer yr wythnos yn diweddu 14 Rhagfyr, sef o 13.1c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol, ond mae'n dal i fod yn 0.1c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Mae prisiau gwartheg yn dal i fod yn llai na'r cyfartaledd pum-mlynedd, ac ar hyn o bryd mae'r pris da byw yn 8.8c yn llai na'r pris cyfartalog (pris cyfartalog 2014-18: 192.8c/kg). Yn yr wythnos yn diweddu 14 Rhagfyr cafwyd gostyngiad yn y prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob categori o wartheg dethol. Roedd prisiau teirw ifainc i lawr 7.0c i 301.3c/kg, ac heffrod i lawr 0.4c i 323.5c/kg. Roedd prisiau bustych yn 323.1c/kg (- 0.5c mewn cymhariaeth â'r wythnos flaenorol) ac mae nawr yn 23.8c yn is nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl.





Lladdwyd cyfanswm o 257,500 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Tachwedd - 2.8% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd, ac 6.3% yn is na'r lladd arbennig o drwm ym mis Hydref. Roedd cyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis (sef 178,200 y pen) yn 4.4% yn is nag yn y mis blaenorol, ac 2.1% yn is nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. O fewn y cyfanswm hwn, lladdwyd 1.4% yn llai o fustych na blwyddyn yn ôl (93,000 y pen), 1.7% yn llai o heffrod (71,500 y pen), a gwelodd teirw ifanc ostyngiad mawr ar lefelau blwyddyn ynghynt i 13,600 pen (i lawr 8.2%). Ar hyn o bryd, mae'r cyfanswm o wartheg dethol a laddwyd yn 2019 yn 0.9% yn uwch na'r un adeg llynedd.





## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw cyfartalog yng Nghymru wedi bod yn uwch nag y mae'n tueddi i fod yr adeg hon o'r flwyddyn. Yn yr wythnos yn diweddu 14 Rhagfyr, roedd yr SQQ yn 188.0c/kg, sef 11.9c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd a 18.1c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 169.9c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos yn diweddu 14 Rhagfyr yn £59.80, sef 68c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol, a £14.90 yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Roedd y prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn 431.7c/kg yn yr wythnos yn diweddu 14 Rhagfyr, sef y chweched wythnos yn olynol i'r prisiau fod yn uwch na'r hyn oeddynt flwyddyn yn gynharach.





Roedd cyfanswm y defaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Tachwedd yn 1.37 miliwn – sef 5.7% yn is nag mis Hydref ond yn debyg i'r cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Ŵyn dethol oedd 90% o'r holl drwybwn ar gyfer y mis, ac roedd nifer y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd yn 13.4% yn is nag yn y mis blaenorol. Wrth edrych ar y cyfnod o fis Mai i fis Tachwedd eleni, gwelwn fod niferoedd yr ŵyn dethol (8.0 miliwn) yn 3.8% yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Cynhyrchwyd mwy o gig defaid yn ystod y mis nag ym mis Tachwedd y llynedd am fod pwysau'r carcasau ychydig yn drymach ar gyfer ŵyn dethol (i fyny 0.4kg) a mamogiaid difa (i fyny 0.2kg).




## MOCH

Roedd Prisiau'r Holl Foch (APP) (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 161.2c/kg ar gyfer yr wythnos yn diweddu 30 Tachwedd, sef ychydig yn uwch (+0.4c) nag yn yr wythnos flaenorol, a 13.5c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Nid yw'r prisiau a gofnodwyd er diwedd mis Medi yn dilyn y duedd dymhorol, ac mae'r pris cyfredol yn 14.1c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 147.1c/kg). Nid oedd y pris cyfartalog ar gyfer perchyll 30kg ym Mhrydain ar gael ar gyfer yr wythnos yn diweddu 30 Tachwedd; roedd y pris ar gyfer perchyll 7kg yn £40.89 y pen, sef 11.70% yn uwch na blwyddyn yn gynharach.




Lladdwyd cyfanswm o 983,600 o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Tachwedd - sef 4.0% yn is nag mis Hydref ac 0.9% yn uwch na blwyddyn yn ôl. Lladdwyd y cyfanswm uchaf o foch ym mis Hydref ers mis Hydref 2015. Wrth edrych ar eleni hyd yma, gwelwn fod 10.0 miliwn o foch heb fagu wedi cael eu lladd, sef 1.1% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Cynhyrchwyd 2.6% yn fwy o borc yn ystod y mis am fod mwy o foch wedi cael eu lladd ac am fod carcasau'r moch heb fagu yn drymach (1.5kg yn drymach). Hyd yma eleni, mae cyfanswm y cynnyrch yn 2.5% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Yn dilyn galw cynyddol yn y rhanbarth Asiaidd oherwydd Clwy Affricanaidd y Moch, cafodd 96.4% yn fwy o borc nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd ei allforio i Tsieina yn ystod y deg mis cyntaf eleni.